LANCS68

# Gweithio o fewn gofynion proffesiynol, deddfwriaethol a rheoliadol, ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys gweithio o fewn gofynion proffesiynol, deddfwriaethol a rheoliadol ar gyfer cynnal dyletswydd gofal ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid yn eich gwaith eich hun. Mae hefyd yn cynnwys cyfrifoldebau personol a moesegol. Mae'n cynnwys gweithio o fewn y fframwaith cyfreithiol a'r codau ymarfer perthnasol, gan roi'r cyfrifoldeb ar yr unigolyn i wybod eu rôl, cyfrifoldebau a'u cyfyngiadau mewn perthynas ag iechyd a lles anifeiliaid. Mae hefyd yn cynnwys rôl sefydliadau proffesiynol a gweithio gyda gweithwyr proffesiynol a phara-broffesiynol eraill ym maes iechyd a lles anifeiliaid. Mae'r safon hon yn addas ar gyfer gweithwyr para-broffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd a lles anifeiliaid.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

P1 adnabod, dadansoddi a gwerthuso materion sy'n gysylltiedig â bod yn weithiwr para-broffesiynol ym maes iechyd a lles anifeiliaid a sut rydych yn atebol am eich gweithredoedd

P2 cynnal eich ymddygiad proffesiynol a'ch moesegau eich hun a gweithio o fewn terfynau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a'ch profiad eich hun a deddfwriaeth sy'n berthnasol i ddarparu gwasanaeth i eraill

P3 adnabod, dadansoddi a gwerthuso materion sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau iechyd a lles anifeiliaid, a chydnabod eich bod yn atebol am eich gweithredoedd

P4 asesu gofynion a chyfyngiadau deddfwriaeth bresennol iechyd a lles anifeiliaid ar eich gwaith

P5 gweithio o fewn deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid, a deddfwriaeth a chodau ymarfer eraill sy'n gysylltiedig ag anifeiliaid bob amser

P6 asesu'r ffordd orau o ddarparu ar gyfer anghenion anifeiliaid tra'u bod o dan eich dyletswydd gofal

P7 cymryd cyfrifoldeb dros eich penderfyniadau fel rhan o'ch rôl

P8 adlewyrchu ar eich perfformiad eich hun wrth wneud eich gwaith a pherfformiad ac ymddygiad y rheiny yr ydych yn gweithio gyda nhw

P9 cynllunio, cofnodi a gwerthuso eich datblygiad proffesiynol parhaus

P10 cynnal perthynas waith gyda chydweithwyr, cleientiaid/cwsmeriaid a gweithwyr proffesiynol a phara-broffesiynol eraill ym maes iechyd a lles anifeiliaid

P11 ymgynghori â'r llawfeddyg milfeddygol priodol cyn dechrau gwaith gydag anifail, pan fydd hynny'n ofynnol trwy ddeddfwriaeth

P12 cynnal trafodaethau proffesiynol gyda gweithwyr proffesiynol a phara-broffesiynol eraill ym maes anifeiliaid

P13 sicrhau bod cofnodion yn cael eu cadw yn unol â deddfwriaeth bresennol a gofynion eraill

P14 cyfrannu at y broses o wneud penderfyniadau moesegol lle y bo'n briodol

P15 adlewyrchu ar y broses o wneud penderfyniadau a'u gwerthuso

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

G1 y gofynion sy’n gysylltiedig â bod yn weithiwr proffesiynol iechyd a lles anifeiliaid ac arwyddocâd rheoleiddio

G2 eich cyfrifoldebau proffesiynol a moesegol a chyfyngiadau eich awdurdod, arbenigedd, hyfforddiant, cymhwysedd a’ch profiad eich hun

G3 eich cyfrifoldebau yn unol â deddfwriaeth berthnasol iechyd a lles anifeiliaid, a deddfwriaeth a chodau ymarfer eraill sy’n gysylltiedig ag anifeiliaid, a chyfyngiadau cyfreithiol y Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol (1966) mewn perthynas â’ch rôl

G4 deddfwriaeth, codau ymarfer a pholisïau sefydliadol perthnasol eraill yn ymwneud â rôl a chyfrifoldebau eich gwaith

G5 dealltwriaeth gynhwysfawr o gynnal iechyd a lles anifeiliaid

G6 rôl cyrff a chymdeithasau proffesiynol iechyd a lles anifeiliaid

G7 cysyniadau "dyletswydd gofal”, "esgeulustod", a "hepgoriad" a’u cymhwyso gan weithwyr proffesiynol a phara-broffesiynol iechyd a lles anifeiliaid

G8 pryd a sut i ymgynghori â llawfeddyg milfeddygol priodol cyn dechrau gwaith gydag anifail

G9 sut i gefnogi cydweithwyr a chleientiaid/cwsmeriaid sy’n dymuno mynegi pryderon am ymddygiad amhroffesiynol (i gynnwys "chwythu’r chwiban")

G10 pwysigrwydd cael cydsyniad gwybodus a sut i werthuso gweithdrefnau sefydliadol/busnes a systemau a weithredwyd i hwyluso hyn, lle y bo’n briodol

G11 y cofnodion priodol i’w cadw, pwysigrwydd cyfrinachedd a gofynion y Ddeddf Diogelu Data (1998)

G12 sut i adnabod materion moesegol yn y gweithle

G13 sut i gymhwyso damcaniaethau ac egwyddorion moesegol i’r materion a nodwyd

G14 sut i adnabod a gwerthuso tystiolaeth a ddefnyddir i lywio penderfyniadau

moesegol

G15 y pwyntiau i'w hystyried wrth gynorthwyo'r broses o wneud penderfyniadau moesegol

G16 sut i leihau effaith penderfyniad moesegol

G17 sut i adlewyrchu ar y broses o wneud penderfyniadau moesegol

G18 pwysigrwydd datblygiad proffesiynol parhaus a sut i gynllunio, adolygu a gwerthuso

G19 eich atebolrwydd cyfreithiol a phroffesiynol wrth weithio fel gweithiwr para-broffesiynol iechyd a lles anifeiliaid a phwysigrwydd diogelwch yswiriant priodol

## Geirfa

Gweithiwr para-broffesiynol
Union ystyr y gair para-broffesiynol yw rhywun sy'n gweithio ar y cyd â gweithiwr proffesiynol (o'r gair Groegaidd "para" sy'n golygu "gerllaw" yn yr un modd â "paralel"). Mae gweithwyr para-broffesiynol yn aml yn gweithredu'n annibynnol ar oruchwyliaeth broffesiynol uniongyrchol, ond nid oes ganddynt awdurdod swyddogol gweithiwr proffesiynol.

Deddf Llawfeddygon Milfeddygol (1966):

Mae'n anghyfreithlon yn unol â'r Ddeddf Llawfeddygon Milfeddygol (1966) i lawfeddygon nad ydynt yn rhai milfeddygol i ymarfer llawdriniaethau milfeddygol. Mae'r Ddeddf yn diffinio Llawfeddygaeth Filfeddygol fel a ganlyn:

diagnosis o glefydau mewn, ac anafiadau i, anifeiliaid yn cynnwys profion a wneir ar anifeiliaid at ddibenion diagnostig;
rhoi cyngor yn seiliedig ar ddiagnosis o'r fath;
triniaeth feddygol neu lawfeddygol ar gyfer anifeiliaid; a
chyflawni llawdriniaethau milfeddygol ar anifeiliaid.

Deddfwriaeth bresennol lles anifeiliaid:
Cymru a Lloegr, Deddf Lles Anifeiliaid 2006
Yr Alban, Deddf Iechyd a Lles Anifeiliaid 2006
Gogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid (Gogledd Iwerddon) 2011

Gallai deddfwriaeth berthnasol arall gynnwys:
cyflenwi nwyddau a gwasanaethau
hawliau dynol
cyflogaeth
iechyd a diogelwch
yr amgylchedd

Gweithio o fewn gofynion proffesiynol, deddfwriaethol a rheoliadol, ar gyfer iechyd a lles anifeiliaid

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 01 Chwef 2013 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 01 Chwef 2018 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANCS68 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Milfeddyg  para-broffesiynol |
| **Cyfres/Set** | Gweithgareddau Milfeddygol Para-broffesiynol |
| **Geiriau Allweddol** | safonau proffesiynol; moesegau; cyfrifoldebau personol |